

# Talu cynghorwyr ac aelodau etholedig eraill yng Nghymru

Faint mae pobl yn cael eu talu, ac am beth



Mae'r ddogfen yma wedi cael ei hysgrifennu gan  
**Banel Annibynnol Cymru ar Gydabyddiaeth Ariannol.**  
Mae'n fersiwn haws ei ddeall o **Adroddiad Blynyddol**  
**Panel Annibynnol Cymru ar Gydabyddiaeth Ariannol**  
**2022**

**Ebrill 2022**

# Am y ddogfen yma

Dyma fersiwn haws ei deall o adroddiad blynyddol 2022 i 2023 sydd wedi cael ei ysgrifennu gan **Banel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol**.

Lle mae'r ddogfen yn dweud **ni**, mae hyn yn meddwl **Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol**..

Am ragor o wybodaeth cysylltwch gyda ni drwy:



**Ein gwefan:** [llyw.cymru/panel-annibynnol-cymru-ar-gydnabyddiaeth-ariannol](https://llyw.cymru/panel-annibynnol-cymru-ar-gydnabyddiaeth-ariannol)



**E-bost:** [irpmailbox@gov.wales](mailto:irpmailbox@gov.wales)



**Neu ffôn:** 03000 253038

# Cynnwys

## Tudalen

<b>Am y ddogfen ym .....</b>	<b>2</b>
<b>Beth ydy Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol? .....</b>	<b>4</b>
<b>Cynghorwyr Awdurdod Lleol.....</b>	<b>6</b>
<b>Aelodau Awdurdod Parc Cenedlaethol .....</b>	<b>15</b>
<b>Aelodau'r Awdurdod Tân ac Achub .....</b>	<b>20</b>
<b>Aelodau Cyfetholedig .....</b>	<b>24</b>
<b>Cynghorwyr Cymuned a Thref .....</b>	<b>25</b>
<b>Gofal a Chymorth Personol .....</b>	<b>33</b>
<b>Teithio, bwyd a llefy .....</b>	<b>35</b>
<b>Tâl salwch.....</b>	<b>38</b>

# Beth ydy Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol?

Mae'r **Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol** yn gorff sydd yn nodi faint mae rhai pobl neilltuol yn cael eu talu



**Cydnabyddiaeth ariannol** ydy'r arian mae rhywun yn cael ei dalu. Mae hyn yn meddwl pethau fel cyflogau, arian tuag at bensiw, costau teithio neu gostau gofal

Mae **Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol** yn nodi faint mae'r bobl yma yn cael eu talu:



- Cynghorwyr Awdurdod Lleol
- Cynghorwyr Cymuned a Thref
- Aelodau Awdurdodau y Parciau Cenedlaethol
- Aelodau'r Awdurdodau Tân ac Achub
- Aelodau cyfetholedig

Mae 5 o bobl ar y **Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol** .



John Bader – Cadeirydd



Saz Willey – Is-Gadeirydd



Joe Stockley



Ruth Glazzard



Helen Wilkinson

# Cynghorwyr Awdurdod Lleol

Pobl ydy cynghorwyr awdurdod lleol sydd yn rhedeg awurdodau lleol.

Mae'r cynghorwyr yma yn gwneud penderfyniadau ar bethau fel

- Ysgolion
- Ffyrdd a thraffig
- Gwasanaethau Cymdeithasol.

Maen nhw'n cael eu hethol gan y bobl sydd yn byw yn ardal eu hawdurdod lleol.

Mae 22 o awdurdodau lleol yng Nghymru, sef:

<b>Blaenau Gwent</b>	<b>Pen-y-bont</b>	<b>Caerffili</b>
<b>Caerdydd</b>	<b>Sir Gaerfyrddin</b>	<b>Ceredigion</b>
<b>Conwy</b>	<b>Sir Ddinbych</b>	<b>Sir y Fflint</b>
<b>Gwynedd</b>	<b>Ynys Môn</b>	<b>Merthyr Tudful</b>
<b>Sir Fynwy</b>	<b>Nedd Port Talbot</b>	<b>Casnewydd</b>
<b>Sir Benfro</b>	<b>Powys</b>	<b>Rhondda Cynon Taf</b>
<b>Abertawe</b>	<b>Torfaen</b>	<b>Bro Morgannwg</b>
<b>Wrecsam</b>		

## Tudalen 6

Cynghorwyr Awdurdod Lleol

## Cyflog sylfaenol

Rydyn ni wedi penderfynu y dylai cynghorwyr awdurdod lleol gael eu talu **£16,800** y flwyddyn o **9 Mai 2022**.

Mae hyn yn cael ei alw yn **gyflog sylfaenol**.

## Uwch gyflog a chyflog dinesig

Mae gan rai cynghorwyr waith ychwanegol i'w wneud ac mae ganddyn nhw fwy o gyfrifoldeb.

Mae'r cynghorwyr yma yn cael eu talu'n fwy. Mae hyn yn cael ei alw yn **uwch gyflog** a **chyflog dinesig**.

Mae cynghorwyr yn cael uwch gyflog neu gyflog dinesig os ydyn nhw yn:

- **Arweinydd Cyngor**

Y person yma sydd yn gwneud yn siŵr bod penderfyniadau yn cael eu gwneud a bod arian yn cael ei wario yn ddoeth. Maen nhw fel arfer yn cynrychioli'r blaid neu'r grŵp gwleidyddol sydd gyda'r mwyaf o gynghorwyr.

## Tudalen 7

Cynghorwyr Awdurdod Lleol

- **Dirprwy Arweinydd y Cyngor**

Mae'r person yma yn gweithio gydag Arweinydd y Cyngor ac yn eu cefnogi yn eu swydd.

- **Aelod Gweithrediaeth**

Mae'r person yma yn gofalu am bwnc neilltuol fel gwasanaethau cymdeithasol, addysg neu tai.

- **Cadeirydd Pwyllgor**

Mae'r person yma yn gofalu am bwllgor sydd yn gwneud penderfyniadau am bynciau neilltuol fel gwasanaethau cymdeithasol, addysg neu tai.

- **Arweinydd yr wrthblaid wleidyddol fwyaf**

Mae'r person yma yn perthyn i'r blaid neu'r grŵp gwleidyddol sydd â'r ail nifer mwyaf o gynghorwyr.

- **Arweinydd grŵp gwleidyddol arall**

- **Pennaeth Dinesig neu Faer**

Mae'r person yma yn mynd i seremonïau a digwyddiadau ar ran yr awdurdod lleol. Maen nhw hefyd yn rhedeg rhai cyfarfodydd i wneud yn siŵr eu bod yn cael eu rhedeg yn gywir.

## **Tudalen 8**

Cynghorwyr Awdurdod Lleol



Dydy pob awdurdo lleol ddim yn talu eu Pennaeth Dinesig am y gwaith yma .

- **Dirprwy Bennaeth Dinesig neu Ddirprwy Faer**

Mae'r person yma yn gweithio gyda'r Pennaeth Dinesig. Dydy pob awdurdod lleol ddim yn talu'r Dirprwy Bennaeth Dinesig am y gwaith yma.

- **Aelod Llywyddol**

Mae'r person yma yn gwneud yn siŵr bod cyfarfodydd yr awdurdod lleol yn cael eu rhedeg yn gywir ac yn dilyn rheolau neilltuol .

Rydym wedi pederfynu y dylai cynghorwyr sydd â'r swyddi yma mewn awdurdodau lleol mwy gael eu talu'n fwy na'r rhai mewn awdurdodau lleol llai

## **Tudalen 9**

Cynghorwyr Awdurdod Lleol

## Uwch Gyflog mewn awdurdodau lleol mwy

Awdurdodau lleol mwy ydy'r rhai lle mae dros 200,000 o bobl yn byw yno. Dyma nhw:

- Caerdydd
- Rhondda Cynon Taf
- Abertawe

O 9 Mai 2022 dyma fydd yr uwch gyflog yn yr awdurdodau lleol yma:

<b>Arweinydd y Cyngor</b>	£63,000
<b>Dirprwy Arweinydd y Cyngor</b>	£44,100
<b>Aelodau Gweithrediaeth</b>	£37,800
<b>Cadeirydd pwyllgorau (os yn derbyn tâl)</b>	£25,593
<b>Arweinydd yr wrthblaid wleidyddol fwyaf</b>	£25,593
<b>Arweinydd grŵp gwleidyddol arall</b>	£20,540
<b>Pennaeth Dinesig (os yn derbyn tâl)</b>	£25,593
<b>Dirprwy Bennaeth Dinesig (os yn derbyn tâl)</b>	£20,540
<b>Aelod Llywyddol (os yn derbyn tâl)</b>	£25,593

### Tudalen 10

Cynghorwyr Awdurdod Lleol

## Uwch gyflog mewn awdurdodau lleol canolig

Awdurdodau lleol canolig ydy'r rhai lle mae rhwng 100,000 a 200,000 o bobl yn byw ynddyn nhw. Dyma nhw:

- Pen-y-bont
- Sir Gaerfyrddin
- Sir y Fflint
- Casnewydd
- Sir Benfro
- Bro Morgannwg
- Caerffili
- Conwy
- Gwynedd
- Nedd Port Talbot
- Powys
- Wrecsam

○ 9 Mai 2022 dyma fydd yr uwch gyflog yn yr awdurdodau lleol yma:

<b>Arweinydd y Cyngor</b>	£56,700
<b>Dirprwy Arweinydd y Cyngor</b>	£39,690
<b>Aelodau Gweithrediaeth</b>	£34,020
<b>Cadeirydd pwyllgorau (os yn derbyn tâl)</b>	£25,593
<b>Arweinydd yr wrthblaid wleidyddol fwyaf</b>	£25,593
<b>Arweinydd grŵp gwleidyddol arall</b>	£20,540
<b>Pennaeth Dinesig (os yn derbyn tâl)</b>	£25,593
<b>Dirprwy Bennaeth Dinesig (os yn derbyn tâl)</b>	£20,540
<b>Aelod Llywyddol (os yn derbyn tâl)</b>	£25,593

### Tudalen 11

Cynghorwyr Awdurdod Lleol

## Uwch gyflog mewn awdurdodau lleol llai

Awdurdodau lleol llai ydy'r rhai lle mae llai na 100,000 o bobl yn byw ynddyn nhw. Dyma nhw:

- Blaenau Gwent
- Sir Ddinbych
- Sir Fynwy
- Ynys Môn
- Ceredigion
- Merthyr Tudful
- Torfaen

Fe ddylai'r uwch gyflog yn yr awdurdodau lleol yma fod fel hyn:

**Arweinydd y Cyngor** £53,550

**Dirprwy Arweinydd y Cyngor** £37,485

**Aelodau Gweithrediaeth** £32,130

**Cadeirydd pwyllgorau (os yn derbyn tâl)** £25,593

**Arweinydd yr wrthblaid wleidyddol fwyaf** £25,593

**Arweinydd grŵp gwleidyddol arall** £20,540

**Pennaeth Dinesig (os yn derbyn tâl)** £25,593

**Dirprwy Bennaeth Dinesig (os yn derbyn tâl)** £20,540

**Aelod Llywyddol (os yn derbyn tâl)** £25,593

### Tudalen 12

Cynghorwyr Awdurdod Lleol

# **Arian arall sydd yn cael ei dalu i gynghorwyr awdurdodau lleol**

## **Pensiynau**

Mae cynghorwyr awdurdod lleol yn gallu ymuno gyda **Chynllun Pensiwn Awdudod Lleol**.

Mae hyn yn meddwl bod yr awdurdod lleol yn talu rhywfaint o arian i gynllun pensiwn ar gyfer y cynghorydd.

Rhaid i'r cynghorydd hefyd dalu rhywfaint o arian i mewn i'w cynllun pensiwn eu hunain.

## **Amser i ffwrdd am resymau teulu**

Pan mae cynghorydd yn cymryd amser i ffwrdd o'r gwaith am rai rhesymau teulu fe fyddan nhw'n dal i gael eu talu.

Mae cynghorwyr awdurdod lleol yn cael cymryd amser i ffwrdd o'r gwaith os ydyn nhw wedi cael babi newydd neu wedi mabwysiadu plentyn.

## **Tudalen 13**

Cynghorwyr Awdurdod Lleol

## Talu am deithio, bwyd a llefy

Mae cynghorwyr hefyd yn cael arian am bethau fel teithio i gyfarfodydd ac am gostau bwyd neu westy tra maen nhw'n gweithio.

Mae rhagor o wybodaeth ar gael ar **dudalen 35**.

## Talu am ofal a chymorth personol

Os ydy cynghorydd yn gofalu am rhywun, efallai bod angen iddyn nhw dalu i rhywun i wneud y gofalu yma tra maen nhw'n gweithio.

Efallai bod cynghorydd angen cymorth i allu gwneud eu swydd, er enghraifft os ydyn nhw'n anabl. Mae hyn yn cael ei alw yn **gymorth personol**.

Mae cynghorydd yn gallu cael arian yn ôl os ydyn nhw wedi gorfod talu am ofal a chymorth personol.

Mae rhagor o wybodaeth ar gael ar **dudalen 33**.

## Tudalen 14

Cynghorwyr Awdurdod Lleol

# Aelodau Parc Cenedlaethol

Mae 3 Parc Cenedlaethol yng Nghymru:

- Bannau Brycheiniog
- Arfordir Sir Benfro
- Eryri

Mae gan pob Parc Cenedlaethol **Awdurdod Parc Cenedlaethol** i wneud yn siŵr bod y Parc Cenedlaethol yn cael ei redeg yn dda.

Mae Awdurdodau Parciau Cenedlaethol yn cael eu rhedeg gan aelodau Awdurdod Parc Cenedlaethol.

Mae gan pob Parc Cenedlaethol 12 o aelodau sydd yn gynghorwyr wedi eu penodi gan eu Hawdurdod Lleol a 6 aelod sydd wedi eu penodi gan Lywodraeth Cymru.

Mae aelodau Awdurdod Parc Cenedlaethol yn gwneud penderfyniadau ar bethau fel:

- Sut mae'r Parc yn gwario ei arian
- Sut mae'r Parc yn cael ei redeg
- Caniatâd cynllunio

# Cyflog Sylfaenol

Rydyn ni wedi penderfynu y dylai aelodau Awdurdod Parc Cenedlaethol gael eu talu **£4,738 y flwyddyn o 1 Ebrill 2022**

Mae hyn yn cael ei alw yn **gyflog sylfaenol**

## Uwch gyflog

Mae gan rai aelodau Awdurdod Parc Cenedlaethol fwy o waith i'w wneud a mwy o gyfrifoldeb.

Fe ddylai'r aelodau Awdurdod Parc Cenedlaethol yma gael eu talu'n fwy. Mae hyn yn cael ei alw yn **uwch gyflog**.

Yr aelodau Awdurdod Parc Cenedlaethol sydd ag uwch gyflog ydy:

- **Cadeirydd yr Awdurdod**

Dyma'r person sydd yn rhedeg cyfarfodydd llawn yr awdurdod ac yn gwneud yn siŵr eu bod yn cael eu rhedeg yn gywir. Maen nhw hefyd yn cynrychioli'r awdurdod yn lleol ac ar draws Cymru.



- **Dirprwy Gadeirydd yr Awdurdod**

Mae'r person yma yn gweithio gyda'r cadeirydd ac yn eu cefnogi yn eu gwaith.

- **Cadeirydd pwyllgor yr Awdurdod**

Mae'r person yma yn rhedeg cyfarfodydd llai yr awdurdod ac yn gwneud yn siŵr eu bod yn cael eu rhedeg yn gywir .

Fe ddylai'r uwch gyflog ar gyfer aelodau Awdurdod Parc Cenedlaethol fod yn:

<b>Cadeirydd yr Awdurdod</b>	£13,531
<b>Dirprwy Gadeirydd yr Awdurdod</b>	£8,478
<b>Cadeirydd Pwyllgor yr Awdurdod (os yn derbyn tâl)</b>	£8,478

## **Aelodau Awdurdod Parc Cenedlaethol sydd yn gynghorwyr awdurdod lleol**

Os ydy aelod o Awdurdod Parc Cenedlaethol yn Arweinydd, Dirprwy Arweinydd neu yn aelod gweithrediaeth awdurdod lleol, **dydyn nhw ddim** yn gallu cael eu talu gan Awdurdod Parc Cenedlaethol hefyd.

**Gweler tudalen 7.**

### **Tudalen 17**

Aelodau Parc Cenedlaethol

# Arian arall sydd yn cael ei dalu i aelodau Awdurdod Parc Cenedlaethol

## Amser i ffwrdd am resymau teulu

Mae aelodau Awdurdod Parc Cenedlaethol yn gallu cael amser i ffwrdd o'r gwaith os ydyn nhw wedi cael babi newydd neu wedi mabwysiadu plentyn.

Os ydyn nhw'n aelod o Awdurdod Parc Cenedlaethol **ac** yn gynghorydd awdurdod lleol, maen nhw'n cael eu talu tra maen nhw i ffwrdd o'r gwaith gan eu hawdurdod lleol.

Os ydyn nhw'n aelod Awdurdod Parc Cenedlaethol sydd wedi cael eu penodi gan Lywodraeth Cymru, dydyn nhw ddim yn cael eu talu tra maen nhw i ffwrdd o'r gwaith.

## Talu am deithio, bwyd a llety

Mae aelodau Awdurdod hefyd yn gallu cael eu talu am bethau fel teithio i gyfarfodydd ac am gostau bwyd neu westy tra'n gweithio .

Mae rhagor o wybodaeth am hyn ar **dudalen 35**.

## Tudalen 18

Aelodau Parc Cenedlaethol

## Talu am ofal a chymorth personol

Os ydy aelod Awdurdod yn gofalu am rhywun, efallai bod angen iddyn nhw dalu i rhywun i wneud y gofalu yma tra maen nhw'n gweithio.

Efallai bod aelod Awdurdod angen cymorth i allu gwneud eu swydd, er enghraifft os ydyn nhw'n anabl. Mae hyn yn cael ei alw yn **gymorth personol**.

Mae aelod Awdurdod yn gallu cael arian yn ôl os ydyn nhw wedi gorfod talu am ofal a chymorth personol.

Mae rhagor o wybodaeth am hyn ar gael ar **dudalen 33**.

# Aelodau Awdurdod Tân ac Achub

Mae 3 gwasanaeth Tân ac Achub yng Nghymru

- Canolbarth a Gorllewin Cymru
- Gogledd Cymru
- De Cymru

Mae Awdurdodau Tân ac Achub yn gwneud yn siŵr bod y gwasanaeth Tân ac Achub yn gwneud gwaith da.

Mae Awdurdodau Tân ac Achub yn cael eu rhedeg gan aelodau Awdurdod Tân ac Achub.

Mae aelodau Awdurdodau Tân ac Achub yn gynghorwyr awdurdodau lleol wedi'u penodi gan awdurdodau lleol.

## Cyflog sylfaenol

Rydyn ni wedi penderfynu y dylai aelodau Awdurdodau Tân ac Achub gael eu talu **£2,369 y flwyddyn o 1 Ebrill 2022**

Mae hyn yn cael ei alw yn **gyflog sylfaenol**.

## Uwch gyflog

Mae gan rai aelodau Awdurdod Tân ac Achub fwy o waith i'w wneud a mwy o gyfrifoldeb.

Fe ddylai'r aelodau Awdurdod Tân ac Achub yma gael eu talu'n fwy. Mae hyn yn cael ei alw yn **uwch gyflog**.

Yr aelodau Awdurdod Tân ac Achub sydd ag uwch gyflog ydy:

- **Cadeirydd yr Awdurdod**

Dyma'r person sydd yn rhedeg cyfarfodydd llawn yr awdurdod ac yn gwneud yn siŵr eu bod yn cael eu rhedeg yn gywir. Maen nhw hefyd yn cynrychioli'r awdurdod yn lleol ac ar draws Cymru.

- **Dirprwy Gadeirydd yr Awdurdod**

Mae'r person yma yn gweithio gyda'r cadeirydd ac yn eu cefnogi yn eu gwaith

- **Cadeirydd Pwyllgor yr Awdurdod**

Mae'r person yma yn rhedeg cyfarfodydd llai yr awdurdod ac yn gwneud yn siŵr eu bod yn cael eu rhedeg yn gywir.

## Tudalen 21

Aelodau Awdurdod Tân ac Achub

Fe ddylai uwch gyflog ar gyfer yr aelodau yma o'r Awdurdod Tân ac Achub fod fel hyn:

<b>Cadeirydd yr Awdurdod</b>	£11,162
<b>Dirprwy Gadeirydd yr Awdurdod</b>	£6,109
<b>Cadeirydd Pwyllgor yr Awdurdod (os yn derbyn tâl)</b>	£6,109

## **Aelodau Awdurdod Tân ac Achub sydd yn gynghorwyr awdurdod lleol**

Os ydy aelod o Awdurdod Tân ac Achub yn Arweinydd, Dirprwy Arweinydd neu yn aelod gweithrediaeth awdurdod lleol, **ddylen nhw ddim** cael eu talu gan Awdurdod Tân ac Achub hefyd. **Gweler tudalen 7.**

### **Tudalen 22**

Aelodau Awdurdod Tân ac Achub

# Arian arall sydd yn cael ei dalu i aelodau Awdurdod Tân ac Achub

## Talu am deithio, bwyd a llefy

Mae aelodau Awdurdod hefyd yn gallu cael eu talu am bethau fel teithio i gyfarfodydd ac am gostau bwyd neu westy tra'n gweithio .

Mae rhagor o wybodaeth am hyn ar **dudalen 35**.

## Talu am ofal a chymorth personol

Os ydy aelod Awdurdod yn gofalu am rhywun, efallai bod angen iddyn nhw dalu i rhywun i wneud y gofalu yma tra maen nhw'n gweithio.

Efallai bod aelod Awdurdod angen cymorth i allu gwneud eu swydd, er enghraifft os ydyn nhw'n anabl. Mae hyn yn cael ei alw yn **gymorth personol**.

Mae aelod Awdurdod yn gallu cael arian yn ôl os ydyn nhw wedi gorfod talu am ofal a chymorth personol.

Mae rhagor o wybodaeth am hyn ar gael ar **dudalen 33**.

## Tudalen 23

Aelodau Awdurdod Tân ac Achub

# Aelodau Cyfetholedig

Mae awdurdodau lleol, Awdurdodau Parc Cenedlaethol ac Awdurdodau Tân ac Achub yn gallu cael aelodau cyfetholedig.

Aelodau cyfetholedig ydy pobl y mae'r awdurdod yn gofyn iddyn nhw ymuno oherwydd bod ganddyn nhw sgil neu ddiddordeb arbennig.

Mae aelodau cyfetholedig yn cael eu talu am bob diwrnod maen nhw yn ei weithio.

Os ydy aelod cyfetholedig yn gweithio llai na 4 awr mewn diwrnod, maen nhw'n cael eu talu rhwng £105 a £134 yn dibynnu ar eu rôl.

Os ydy aelod cyfetholedig yn gweithio 4 awr neu ragor mewn diwrnod, maen nhw'n cael eu talu rhwng £210 a £268 yn dibynnu ar eu rôl.

Maen nhw hefyd yn cael costau teithio, bwyd a llety lle mae'r rhain yn angenrheidiol i wneud eu gwaith. Ewch i **dudalen 35** am ragor o wybodaeth am hyn.

## Tudalen 24

Aelodau Cyfetholedig

**Error! Reference source not found.**



# Cynghorwyr Cymuned a Thref

Mae dros 735 o gynghorwyr Cymuned a Thref yng Nghymru.

Ond does gan pob cymuned neu dref Gyngor Cymuned neu Dref.

Mae Cynghorwyr Cymuned neu Dref yn gofalu am Gyngorau Cymuned a Thref.

Maen nhw'n cael eu hethol gan y bobl sydd yn byw yn eu tref neu gymuned.

Mae Cynghorwyr Cymuned neu Dref yn gwneud penderfyniadau am bethau fel:

- neuaddau cymuned
- arosfeydd bysiau
- parciau a meysydd chwarae

Yn y gorffennol roedd Cynghorwyr Cymuned neu Dref yn cael eu talu'n fwy os oedd gan y cyngor fwy o arian i'w wario.

## **Tudalen 25**

Cynghorwyr Cymuned a Thref

Rydyn ni wedi penderfynu o **9 Mai 2022** fe ddylai  
Cynghorwyr Cymuned a Thref gael eu talu yn wahanol lle  
mae mwy o bleidleiswyr yn eu hardal .

<b>Math o Gyngor</b>	<b>Nifer y pleidleiswyr</b>
<b>Grŵp 1</b>	14,000 neu ragor
<b>Grŵp 2</b>	10,000 i 13,999
<b>Grŵp 3</b>	5,000 i 9,999
<b>Grŵp 4</b>	1,000 i 4,999
<b>Grŵp 5</b>	Dan1,000

Mae gwahanol fathau o dâl y mae cynghorwyr Tref a  
Chymuned yn gallu cael eu talu .

**Tâl sylfaenol** o £150 y flwyddyn yn cael ei dalu i bob  
cynghorydd.

**Uwch dâl** o £500 y flwyddyn yn cael ei dalu i bobl sydd yn  
gadeirydd pwyllgor. Dim ond unwaith y mae cynghorydd  
yn gallu cael eu talu, hyd yn oed os ydyn nhw yn cadeirio  
mwy nag un pwyllgor.

## **Tudalen 26**

Cynghorwyr Cymuned a Thref

## Grŵp 1

Os oes gan Gyngorydd Cymuned neu Dref 14,000 neu ragor o bleidleiswyr mae'r taliadau yma yn cael eu gwneud.

**Tâl sylfaenol** o £150 y flwyddyn i bob cyngorydd.

**Uwch dâl** o £500 y flwyddyn i 1 cyngorydd. Mae hyd at 7 cyngorydd arall yn gallu cael eu talu ond does dim rhaid i'r cyngor eu talu .

## Grŵp 2

Os oes gan Gyngorydd Cymuned neu Dref 10,000 i 13,999 o bleidleiswyr mae'r taliadau yma yn cael eu gwneud.

**Tâl sylfaenol** o £150 y flwyddyn i bob cyngorydd.

**Uwch dâl** o £500 y flwyddyn i 1 cyngorydd. Mae hyd at 5 cyngorydd arall yn gallu cael eu talu ond does dim rhaid i'r cyngor eu talu .

## Grŵp 3

Os oes gan Gyngorydd Cymuned neu Dref 5,000 i 9,999 o bleidleiswyr mae'r taliadau yma yn cael eu gwneud..

**Tâl sylfaenol** o £150 y flwyddyn i bob cyngorydd.

## Tudalen 27

Cyngorwyr Cymuned a Thref

**Uwch dâl** o £500 y flwyddyn i hyd at 3 cynghorydd yn gallu cael eu talu ond does dim rhaid i'r cyngor eu talu .

## **Grŵp 4**

Os oes gan Gyngor Cymuned neu Dref 1,000 i 4,999 o bleidleiswyr mae'r taliadau yma yn cael eu gwneud..

**Tâl sylfaenol** o £150 y flwyddyn i bob cynghorydd.

**Uwch dâl** o £500 y flwyddyn i hyd at 3 cynghorydd yn gallu cael eu talu ond does dim rhaid i'r cyngor eu talu .

## **Grŵp 5**

Os oes gan Gyngor Cymuned neu Dref lai na 1,000 o bleidleiswyr mae'r taliadau yma yn cael eu gwneud..

**Tâl sylfaenol** o £150 y flwyddyn i bob cynghorydd.

**Uwch dâl** o £500 y flwyddyn i hyd at 3 cynghorydd arall yn gallu cael eu talu ond does dim rhaid i'r cyngor eu talu

## **Bod yn gynghorydd ar fwy nag 1 Cyngor Tref neu Gymuned**

Mae rhywun yn gallu bod yn gynghorydd ar fwy nag 1 Cyngor Tref neu Gymuned.

Maen nhw'n gallu cael eu talu gan bob Cyngor Tref neu Gymuned .

Mae cynghorwyr yn gallu gwrthod taliad cyfan neu ran o'r taliad y mae ganddyn nhw hawl i'w gael ond rhaid iddyn nhw wneud hyn mewn ysgrifen i glerc y cyngor.

## **Maer ac Arweinyddion Cynghorau Tref a Chymuned**

Mae Cynghorau Cymuned neu Dref yn gallu cael Maer neu Arweinydd.

Maer neu Arweinydd ydy rhywun sydd yn cynrychioli'r cyngor yn y gymuned.

Mae Cynghorau Tref neu Gymuned yn gallu talu hyd at £1,500 ychwanegol y flwyddyn i 1 person i fod yn Faer neu Arweinydd.

Mae Cynghorau Tref neu Gymuned yn gallu talu hyd at £500 ychwanegol y flwyddyn i 1 Person fod yn Ddirprwy Faer neu yn Ddirprwy Arweinydd.

### **Tudalen 29**

Cynghorwyr Cymuned a Thref

# Cynghorwyr Cyngor Tref a Chymuned sydd hefyd yn uwch gynghorwyr Awdurdod Lleol

Dydy Cynghorwyr Cymuned a Thref sydd **hefyd** yn uwch gynghorwyr awdurdod lleol ddim yn gallu cael eu talu ar wahân i arian ar gyfer:

- gofal a chymorth personol
- teithio
- bwyd
- llety

## Arian arall sydd yn cael ei dalu i Gynghorwyr Cymuned a Thref

### Talu am golled ariannol

Mae Cynghorau Cymuned a Thref yn gallu, ond does dim rhaid iddyn nhw dalu hyn.

Colled ariannol ydy pan mae rhywun wedi colli allan ar gael arian oherwydd eu bod yn gwneud eu gwaith fel Cynghorydd Cymuned neu Gynghorydd Tref

### Tudalen 30

Cynghorwyr Cymuned a Thref

Mae hyn yn gallu bod oherwydd nad oedden nhw'n gallu gwneud eu swydd normal tra eu bod yn mynd i gyfarfod cyngor ac felly ddim yn cael eu talu .

Os oes gan Gyngorydd Tref neu Gymuned golled ariannol, maen nhw'n gallu cael eu talu:

- I fyny at £57.20 os ydyn nhw yn treulio hyd at 4 awr yn gweithio i Gyngor Tref neu Gymuned
- I fyny at £114.40 os ydyn nhw'n treulio dros 4 awr yn gweithio i Gyngor Tref neu Gymuned.

Rhaid i Gyngorwyr brofi eu bod nhw wedi cael colled ariannol.

## **Lwfans Mynychu**

Mae Cyngorau Tref a Chymuned yn gallu, ond does dim rhaid iddyn nhw dalu hyn.

Lwfans mynychu ydy pan mae Cyngorydd Tref neu Gymuned yn cael eu talu i fynd i gyfarfod.

Mae lwfans mynychu i fyny at £30 y cyfarfod.

## **Tudalen 31**

Cyngorwyr Cymuned a Thref

## Talu am deithio, bwyd a llety

Mae Cyngorau Tref a Chymuned yn gallu, ond does dim rhaid iddyn nhw dalu i gynghorwyr am deithio, bwyd a llety.

Os ydy Cyngor Tref neu Gymuned yn talu am bethau fel teithio i gyfarfodydd, costau bwyd neu westy rhaid iddyn nhw ddilyn rhai rheolau.

Mae rhagor o wybodaeth am hyn ar **dudalen 35**.

## Talu am ofal a chymorth personol

Os ydy Cyngorydd Cyngor Tref neu Gymuned yn gofalu am rhywun, efallai bod angen iddyn nhw dalu i rhywun i wneud y gofalu yma tra maen nhw'n gweithio.

Efallai bod Cyngorydd Cyngor Tref neu Gymuned angen cymorth i allu gwneud eu swydd, er enghraifft os ydyn nhw'n anabl. Mae hyn yn cael ei alw yn **gymorth personol**.

Mae Cyngorydd Cyngor Tref neu Gymuned yn gallu cael arian yn ôl os ydyn nhw wedi gorfod talu am ofal a chymorth personol.

Mae rhagor o wybodaeth am hyn ar gael ar **dudalen 33**.

## Tudalen 32

Cynghorwyr Cymuned a Thref



# Gofal a Chymorth Personol

Mae rhai pobl yn gorfod gofalu am rhywun arall. Efallai eu bod yn gofalu am blentyn, person hŷn neu rhywun sydd yn sâl neu yn anabl.

Mae rhai pobl angen cymorth personol i wneud eu gwaith. Efallai bod hyn oherwydd eu bod yn anabl

Dydyn ni ddim eisiau i gost y gofal neu'r cymorth stopio pobl rhag dod yn gynghorwyr, aelodau awdurdod neu aelodau cyfetholedig. Felly rydyn ni wedi penderfynu bod y costau am ofal neu gymorth yn gallu cael ei ad-dalu.

Mae cynghorau ac awdurdodau yn gallu penderfynu sut mae hawliadau yn cael eu gwneud ond rhaid iddyn nhw ddilyn rheolau i wneud hawlio yn deg ac yn hawdd.

Does dim uchafswm nawr sydd yn gallu cael ei dalu am Ofal a Chymorth Personol.

- Mae cost **gofal neu gymorth ffurfiol** yn gallu cael ei dalu yn ôl yn llawn. Mae gofal neu gymorth ffurfiol yn cael ei ddarparu gan rhywun sydd wedi cofrestru gydag Arolygiaeth Gofal Cymru .

## Tudalen 33

Gofal a Chymorth Personol

- Os ydy'r gofal neu'r cymorth yn cael ei ddarparu gan rhywun **sydd** ddim wedi cofrestru gydag Arolygiaeth Gofal Cymru mae hyn yn **ofal anffurfiol**. Mae cost gofal anffurfiol yn gallu cael ei dalu yn ôl i fyny at gyfradd fesul awr Cyflog Byw Gwirioneddol y DU

Rydyn ni wedi gosod rhai rheolau eraill ar gyfer talu am ofal a chymorth.

- Mae gofal a chymorth personol yn gallu cael ei dalu amdano dim ond os nad ydy e'n cael ei dalu gan bethau eraill fel budd-daliadau lles neu daliadau mynediad i waith.
- Fe ddylai cynghorau ac awdurdodau wneud yn siŵr bod cynghorwyr ac aelodau yn gwybod eu bod yn gallu cael yr arian yma os ydyn nhw ei angen.
- Mae gofal a chymorth personol yn gallu cael ei dalu i fynd i gyfarfodydd, amser sydd yn cael ei gymryd i baratoi ar gyfer, a theithio i gyfarfodydd.

Fe ddylai cynghorau ac awdurdodai roi help a'i gwneud yn syml i bobl gael arian i dalu am ofal a chymorth personol.

## **Tudalen 34**

### Gofal a Chymorth Personol

# Teithio, bwyd a llefy

Weithiau mae pobl yn gwario arian ar bethau er mwyn iddyn nhw allu gwneud busnes swyddogol.

Mae busnes swyddogol yn cynnwys pethau fel mynd i gyfarfodydd swyddogol neu mynd ar gwrs hyfforddi.

Efallai eu bod yn gwario arian ar:

- **Teithio**

Mae hyn yn meddwl pethau fel tocynnau bws neu drên a chost rhedeg car os ydyn nhw'n gyrru.

- **Bwyd**

Mae hyn yn meddwl prynu pryd o fwyd os ydyn nhw i ffwrdd o gartref tra maen nhw'n gweithio.

- **Llefy**

Mae hyn yn meddwl aros mewn gwesty os ydyn nhw wedi gorfod teithio ymhell o gartref i weithio.

Os ydy rhywun yn gwario eu harian eu hunain ar y pethau yma maen nhw'n gallu gofyn am gael eu talu yn ôl

## Tudalen 35

Teithio, bwyd a llefy

## Costau teithio

Os ydy rhywun yn gyrru car i'w gwaith, rhaid iddyn nhw gael tâl:

- 45 ceiniog y ffilltir am y 10,000 miltir cyntaf maen nhw'n gyrru car mewn blwyddyn.
- 25 ceiniog y filltir am bob milltir maen nhw'n gyrru car dros 10,000 mewn blwyddyn.
- 5 ceiniog y filltir, am bob teithiwr yn eu car sydd hefyd yn gwneud busnes swyddogol
- 24 ceiniog y filltir am bob milltir os ydyn nhw yn gyrru beic modur.
- 20 ceiniog y filltir am bob milltir os ydyn nhw yn mynd ar feic.

Os ydyn nhw'n teithio ar fws, trênn neu tacsî rhaid iddyn nhw gael eu talu am y swm maen nhw wedi ei wario ar eu tocyn.

Rhaid iddyn nhw brofi faint maen nhw wedi ei wario

Rhaid iddyn nhw ddewis ffordd synhwyrol a rhad o deithio

### **Tudalen 36**

Teithio, bwyd a llety

## Costau bwyd a llefy

Os ydy rhywun yn gwneud busnes swyddogol efallai y bydd angen iddyn nhw brynnu bwyd tra maen nhw'n gweithio.

Os ydy rhywun wedi teithio ymhell i ffwrdd o gartref i wneud busnes swyddogol, efallai bod angen iddyn nhw aros i ffwrdd dros nos

Mae hyn yn cael ei alw yn **llefy**.

Rhaid iddyn nhw gael eu talu yn ôl am yr arian maen nhw yn ei wario ar fwyd, diodydd a llefy.

Rhaid iddyn nhw brofi faint maen nhw wedi ei wario.

Maen nhw'n gallu cael eu talu i fyny at £28 y diwrnod am fwyd a diod.

Os ydyn nhw yn aros i ffwrdd dros nos, ddylen nhw ddim cael eu talu yn fwy na:

- £200 os ydyn nhw yn aros yn Llundain
- £95 os ydyn nhw yn aros yn unrhyw le sydd ddim yn Llundain
- £30 os ydyn nhw yn aros yn nhŷ ffrind neu aelod o'r teulu.

### **Tudalen 37**

Teithio, bwyd a llefy

# Tâl salwch

## Tâl sylfaenol

Rhaid i gynghorwyr Awdurdod Lleol ac aelodau Awdurdod gael eu talu os ydyn nhw i ffwrdd o'r gwaith oherwydd salwch.

Rhaid iddyn nhw gael eu talu am hyd at 6 mis os ydyn nhw i ffwrdd o'r gwaith yn sâl.

Dydy hyn ddim yn wir am aelodau cyfetholedig.

## Uwch dâl

Mae cynghorwyr ac aelodau awdurdod sydd yn cael uwch gyflog yn gallu cael eu uwch gyflog os ydyn nhw i ffwrdd o'r gwaith am amser hir.

Fe fydd pob awdurdod yn penderfynu os ydyn nhw eisiau gwneud hyn.

Maen nhw'n gallu cael eu talu am hyn i fyny at 6 mis.